**ATODIAD A**

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

Deddf Llywodraeth Leol (Amrywiol) 1976

Rhan II

Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847

**Amodau Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat**

## 1. AMODAU'R CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL

Rhaid i'r ymgeisydd:

i) Cwblhau cais gan ddefnyddio'r ffurflen a bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu, a'i chyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu, ynghyd â'r dogfennau a ganlyn:

- Manylion dau ganolwr y caiff yr Awdurdod Trwyddedu ysgrifennu atynt i gael geirda. Rhaid bod y canolwyr wedi adnabod yr ymgeisydd am o leiaf ddwy flynedd. Ni ddylai'r unigolion hyn fod yn gysylltiedig â theulu'r ymgeisydd na'r diwydiant cerbydau hacni neu gerbydau hurio preifat. Dylai'r ddau ganolwr fod yn aelodau amlwg o'r gymuned; er enghraifft, Ynad, Cyfreithiwr, Athro neu Glerigwr ac ati.
- Dau lun diweddar o faint pasbort. Ystyr "diweddar" yn yr achos hwn yw llun a dynnwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gwblhau a'i gyflwyno trwy'r Awdurdod Trwyddedu.
- Tystysgrif wedi'i llofnodi gan ymarferydd meddygol cofrestredig ynghylch ei ffitrwydd i yrru cerbyd trwyddedig, a thystysgrif bellach yn achlysurol wedi hynny, fel y pennir yng nghanllawiau meddygol grŵp 2 y DVLA. Bydd yn ofynnol i bob gyrrwr, pan fydd yn cyrraedd 65 oed, ddarparu i'r Swyddog Trwyddedu dystysgrif a lofnodwyd gan ymarferydd meddygol cofrestredig ynghylch ei ffitrwydd i barhau i yrru, a bydd rhaid darparu tystysgrif newydd pa bryd bynnag y bydd yn gwneud cais am drwydded ar ôl hynny. Gall fod yn ofynnol i bob gyrrwr ddarparu tystysgrif feddygol yn amlach os bydd yr Awdurdod Trwyddedu neu ymarferydd meddygol yn credu bod hynny'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau.

ii) Rhaid bod gan bob ymgeisydd newydd sy'n gwneud cais am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacni / cerbyd hurio preifat drwydded yrru lawn gan y DVLA Gogledd Iwerddon neu Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) ers o leiaf 12 mis a rhaid nad yw wedi cael mwy na 6 phwynt cosb yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais am drwydded yrru ddeuol.

iii) Ni fydd llungopïau o ddogfennau'n dderbyniol, oni bai fod un o Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu wedi'u hardystio i gadarnhau eu bod yn gopïau dilys o ddogfennau gwreiddiol. Dim ond dogfennau gwreiddiol y gellir eu cyflwyno fel tystiolaeth ategol i wneud cais am ddatgeliad gan y DBS. Nid yw'r AT yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros unrhyw ddogfennau gwreiddiol sy'n cael eu dychwelyd drwy'r Post Brenhinol. Am y rheswm hwn, cynghorir yr ymgeiswyr i gyflwyno a/neu i gasglu'u dogfennau'u hunain, lle bynnag y bo modd.

Mae rhestr gynhwysfawr o ddogfennau ategol i'w gweld yng nghefn y ffurflen gais.

iv) Ni fydd trwydded yrru'n cael ei rhoi oni bai fod y ffi briodol yn cael ei thalu. Os bydd y ffi'n cael ei thalu drwy gyfrwng siec a gaiff ei gwrthod yn ddiweddarach, bydd unrhyw drwydded a roddwyd yn ddi-rym.

## 2. COLLFARNAU, COSBAU, RHYBUDDIADAU A RHYBUDDION

i) Mae Polisi Ffitrwydd Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Cyngor Sir Ceredigion yn berthnasol i ymgeiswyr a gyrwyr wedi'u trwyddedu gan yr Awdurdod hwn. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau'r Awdurdod Trwyddedu ei fod yn berson addas a phriodol i gael trwydded yrru ddeuol pan fydd yn gwneud cais am drwydded yrru ddeuol ac, os rhoddir trwydded o'r fath, drwy gydol cyfnod y drwydded.

ii) Rhaid i'r gyrrwr roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ar y ffurflen benodedig cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad unrhyw gollfarn, rhybuddiad, rhybudd neu gerydd, gan gynnwys ardystiad gyrru. Yn achos dedfryd o garchar, dylid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

iii) Os na fydd ymgeiswyr neu ddeiliaid trwydded yn datgan unrhyw gollfarn, rhybuddiad, rhybudd, hysbysiad cosb, gorchymyn neu gerydd ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achos llys neu fater arall sydd yn yr arfaeth, boed wedi darfod ai peidio, gallant gael eu cyfeirio at yr Is-bwyllgor Trwyddedu er mwyn iddo benderfynu ar eu cais.

**Cais am wybodaeth adran 115 o'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998**

i) Bydd yn ofynnol i bob gyrrwr lofnodi datganiad sy'n caniatáu i'r AT gyflwyno cais i'r Gwasanaeth Heddlu perthnasol am ddatgeliad adran 115 er mwyn cael gwybodaeth ynghylch hanes troseddol a/neu hanes gyrru unigolyn. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gadarnhau bod gan yr ymgeisydd drwydded yrru lawn ers o leiaf ddeuddeg mis ac i atal unrhyw weithgarwch twyllodrus o ran cael gafael ar fwy nag un drwydded. Gall fod tâl am y gwasanaeth hwn a bydd rhaid i'r ymgeisydd ei dalu.

ii) Gall gwybodaeth neu gudd-wybodaeth a ddatgelir i'r AT gan Heddlu Dyfed-Powys Police neu awdurdod arall fod yn rheswm dros roi ymgeisydd, gyrrwr, perchennog neu weithredwr gerbron yr is-bwyllgor a chaiff ei datgelu yn ystod y gwrandawiad er mwyn i'r panel gael yr holl wybodaeth y mae ei hangen arno i wneud penderfyniad ynglŷn â ffitrwydd a phriodoldeb yr unigolyn.

## 3. AROS

i) Rhaid i'r gyrrwr beidio â chaniatáu i injan cerbyd hacni / cerbyd hurio preifat redeg tra bo'r cerbyd yn llonydd am gyfnod estynedig mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys mewn safle tacsis, a hynny heb achos rhesymol.

ii) Rhaid i'r gyrrwr aros gyda'r cerbyd hacni bob amser pan fydd y cerbyd mewn safle cerbyd hacni.

iii) Pan fydd yn aros neu'n aros i symud i safle tacsis, neu'n aros mewn unrhyw le arall yn chwilio am gwsmeriaid, rhaid i yrrwr cerbyd hacni sicrhau nad yw ei weithredoedd yn cythruddo nac yn digio meddianwyr eiddo cyfagos, cerddwyr na defnyddwyr eraill y ffordd, gan gynnwys gyrwyr cerbydau hacni eraill.

iv) Pan fydd yn mynd i safle tacsis, rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod y cerbyd wedi'i leoli y tu ôl i'r cerbydau eraill er mwyn iddynt wynebu'r un cyfeiriad a sicrhau bod y cerbyd yn symud yn ei flaen pan fydd y safle'n union o'i flaen yn dod yn wag.

v) Bydd gyrrwr unrhyw gerbyd hacni sy'n aros i gael ei hurio ar draws unrhyw stryd neu wrth ymyl unrhyw gerbyd hacni arall, neu sy'n gwrthod ildio i unrhyw gerbyd arall, os yw'n gyfleus iddo wneud hynny, yn agored i gosb. Bydd gyrrwr unrhyw gerbyd hacni sy'n rhwystro neu sy'n atal gyrrwr unrhyw gerbyd arall rhag codi unrhyw berson i'r cerbyd hwnnw neu'i osod i lawr o'r cerbyd hwnnw yn agored i gosb.

vi) Bydd gyrrwr unrhyw gerbyd hacni sy'n atal gyrrwr unrhyw gerbyd hacni arall rhag cael ei hurio, neu sy'n ceisio'i atal rhag gwneud hynny, yn agored i gosb.

vii) Ni chaiff gyrrwr cerbyd hurio preifat aros na chwilio am gwsmeriaid nac erfyn ar unrhyw berson i hurio cerbyd o'r fath a rhaid iddo beidio â defnyddio gwasanaeth unrhyw berson arall at y diben hwnnw.

**4. YMDDANGOSIAD AC YMDDYGIAD Y GYRRWR**

i) Rhaid i'r gyrrwr ymddwyn mewn modd bonheddig, cwrtais a threfnus tuag at y cyhoedd a gyrwyr eraill. Pan fydd yn aros mewn safle tacsis neu pan fydd yn aros i symud i safle tacsis, neu'n aros mewn unrhyw fan arall yn chwilio am gwsmeriaid, rhaid i'r gyrrwr sicrhau nad yw ei weithredoedd yn cythruddo nac yn digio meddianwyr eiddo cyfagos, cerddwyr na defnyddwyr eraill y ffordd, gan gynnwys gyrwyr cerbydau hacni eraill.

ii) Rhaid i'r gyrrwr bob amser pan fydd yn cyflawni ei ddyletswyddau, fod yn lân a rhaid iddo wisgo'n barchus, gan roi sylw arbennig i'w hylendid personol. Disgwylir i yrwyr wisgo dillad glân, trwsiadus. Rhaid i bob gyrrwr wisgo esgidiau priodol sy'n addas ar gyfer gyrru (h.y. nid fflip fflops, clocsiau na *crocs;* ni chaiff fod yn droednoeth ychwaith).

iii) Rhaid i'r gyrrwr beidio â defnyddio unrhyw iaith nac ystumiau ymosodol ar unrhyw adeg tuag at y cyhoedd, cerddwyr, defnyddwyr eraill y ffordd gan gynnwys gyrwyr eraill, un o swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu, un o swyddogion yr Heddlu nac unrhyw berson arall. Pan fydd lle gwirioneddol i bryderu, bydd yr Awdurdod yr ystyried a yw'r gyrrwr yn dal i fod yn berson addas a phriodol i gael trwydded.

iv) Rhaid i'r gyrrwr gyrraedd yn brydlon ar yr adeg ac yn y lle a bennwyd gan yr huriwr, oni bai fod ganddo reswm digonol dros fod yn hwyr neu fethu â chyrraedd. Rhaid rhoi gwybod i'r huriwr am unrhyw oedi.

v) Yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr huriwr, rhaid i'r gyrrwr fynd i'r gyrchfan ar hyd y llwybr byrraf sydd ar gael.

vi) Rhaid i'r gyrrwr beidio â bwyta nac yfed yn y cerbyd tra ei fod yn gweithio heb ganiatâd penodol yr huriwr.

vii) Ni chaniateir smygu o unrhyw fath yn y cerbyd ar unrhyw adeg, pa un a yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion hurio neu at ddibenion preifat. Mae hyn yn cynnwys defnyddio e-sigaréts neu unrhyw beth arall a ddefnyddir yn lle sigarét a all ymddangos fel pe bai'n sigarét.

viii) Pan fydd yn cyflawni dyletswyddau trwyddedig, rhaid i'r gyrrwr bob amser wisgo bathodyn adnabod y gyrrwr mewn man amlwg a rhaid iddo roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith os bydd yn colli'r bathodyn a chael bathodyn newydd yn ei le. Rhaid i'r gyrrwr dalu'r ffi a bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu i gael bathodyn newydd.

ix) Bydd bathodyn adnabod y gyrrwr yn parhau i fod yn eiddo i'r Awdurdod Trwyddedu a rhaid ei ddychwelyd iddo ar unwaith os bydd yn gofyn amdano neu os bydd y drwydded yn cael ei hatal dros dro, ei dirymu neu yn dod i ben.

x) Rhaid i'r gyrrwr beidio â defnyddio unrhyw radio nac offeryn na chyfarpar sy'n atgynhyrchu sain yn y cerbyd heb ganiatâd penodol yr huriwr, ac eithrio at ddibenion anfon neu dderbyn negeseuon sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cerbyd.

xi) Rhaid i'r gyrrwr beidio ag achosi na chaniatáu i'r sŵn a gynhyrchir gan unrhyw radio neu unrhyw gyfarpar arall a enwyd eisoes yn y cerbyd y mae'n ei yrru beri niwsans na blinder i unrhyw berson, boed tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd.

xii) Rhaid i'r gyrrwr beidio â galw ar unrhyw berson nac erfyn fel arall ar unrhyw berson i hurio'r cerbyd a rhaid iddo beidio â defnyddio gwasanaeth unrhyw berson arall sy'n hurio'r cerbyd.

xiii) Rhaid i'r gyrrwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod teithwyr yn ddiogel pan fyddant yn cael eu cludo, yn camu i'r cerbyd neu'n camu ohono.

xiv) Pan fydd gofyn iddo wneud hynny, rhaid i yrrwr cerbyd trwyddedig:-
   a) cludo nifer rhesymol o fagiau;
   b) rhoi cymorth rhesymol a chwrtais i lwytho ac i ddadlwytho bagiau;
   c) rhoi cymorth rhesymol i gario bagiau i fynedfa unrhyw adeilad, gorsaf neu le y mae'r teithiwr yn mynd iddo neu i gario bagiau o'r fynedfa lle y mae'r teithiwr yn cael ei godi neu ei osod i lawr.

xv) Ar ddiwedd unrhyw daith, rhaid i'r gyrrwr fynd ati ar unwaith, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl hynny, i chwilio'n ofalus am unrhyw eiddo a allai fod wedi'i adael yn y cerbyd yn ddamweiniol.

xvi) Os daw'r gyrrwr o hyd i unrhyw eiddo a adawyd mewn cerbyd trwyddedig gan unrhyw berson a allai fod wedi teithio ynddo, neu os bydd rhywun yn rhoi eiddo o'r fath i'r gyrrwr, rhaid iddo wneud pob ymdrech resymol i ddychwelyd yr eitem(au) i'r perchennog, neu os nad yw hynny'n ymarferol, rhaid mynd â'r eitem(au) i swyddfa leol yr Heddlu cyn pen 24 awr.

xvii) Rhaid i yrrwr cerbyd beidio â chanu corn y cerbyd heb fod angen; h.y. ni ddylid ond ei ddefnyddio pan fydd y cerbyd yn symud a phan fydd angen rhybuddio defnyddwyr eraill y ffordd ei fod yno. Ni ddylid fyth canu'r corn yn ymosodol. Rhaid peidio â chanu'r corn:
   a) pan fydd y cerbyd yn llonydd ar y ffordd
   b) pan fydd y gyrrwr yn gyrru mewn ardal adeiledig rhwng 11.30pm a 7.00am

Oni bai fod cerbyd arall yn creu perygl.

**5. DYLETSWYDDAU A OSODIR GAN Y DRWYDDED**

i) Pan gaiff trwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacni / cerbyd hurio preifat ei rhoi neu'i hadnewyddu, bydd yn parhau i fod mewn grym am hyd at dair [3] blynedd oni bai iddi gael ei hatal, ei dirymu neu'i hildio.

ii) Caiff pob cais ei drin yn ôl ei rinwedd ei hun a bydd trwydded yn parhau i fod mewn grym am gyfnod o hyd at flwyddyn. Y perchennog sy'n gyfrifol am sicrhau bod cais i adnewyddu trwydded yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad y bydd y drwydded yn dod i ben oherwydd nad oes cyfnod gras awtomatig ar gael. Gall unrhyw gais sy'n dod i law ar ôl i'r drwydded ddod i ben gael ei drin fel cais newydd.

iii) Ni ellir trosglwyddo trwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacni / cerbyd hurio preifat i unrhyw berson arall.

iv) Rhaid dangos y drwydded yrru a roddwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu i unrhyw un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu i unrhyw un o swyddogion yr Heddlu os bydd yn gofyn i'w gweld, a rhaid i'r gyrrwr fel arall ddarparu unrhyw gymorth a gwybodaeth y gall fod eu hangen yn rhesymol ar unrhyw swyddog o'r fath mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol.

v) Rhaid i'r gyrrwr beidio â gyrru unrhyw gerbyd at ddibenion hurio preifat na hacni oni bai fod y cerbyd a bod y gyrrwr wedi'i drwyddedu o dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847.

vi) Cyn pen saith diwrnod ar ôl i'w swydd ddechrau neu ddod i ben, rhaid i'r gyrrwr roi i'r Swyddog Trwyddedu enw a chyfeiriad y trwyddedai y mae'n gweithio iddo, a'r dyddiad y bu i'r swydd ddechrau neu ddod i ben.

vii) Rhaid i'r gyrrwr roi ei drwydded i'r perchennog/gweithredwr y mae'n gweithio iddo ar unwaith pan fydd yn dechrau ar ei swydd.

viii) Rhaid i'r gyrrwr roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu os bydd ei gyfeiriad yn newid yn ystod cyfnod y drwydded, a hynny cyn pen saith diwrnod ar ôl i'r cyfeiriad newid.

ix) Rhaid i'r gyrrwr gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan yr Awdurdod Trwyddedu iddo ddod i gyfweliad mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd, unrhyw anwaith neu unrhyw fethiant honedig arall i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol neu unrhyw fater arall mewn perthynas â'i waith fel gyrrwr trwyddedig.

**6. IECHYD Y GYRRWR**

i) Mae angen cyflwyno Tystysgrif Feddygol wrth wneud cais ac yn achlysurol ar ôl hynny. Rhaid cyflawni archwiliad meddygol at safon grŵp 2 y DVLA a rhaid bod modd i'r sawl sy'n cyflawni'r archwiliad meddygol weld hanes meddygol diweddaraf yr ymgeisydd/y gyrrwr. Bydd pob gyrrwr yn cael archwiliad meddygol grŵp 2 a phenderfynir pa mor aml y byddant yn cael archwiliad yn ôl canllawiau'r DVLA, adeg y cais ac wedi hynny.

ii) Dylid cyfeirio at lyfryn gwybodaeth D4 y DVLA ynghylch Adroddiad Archwiliad Meddygol (sydd ar gael yn www.dvla.gov.uk) i gael rhestr o'r cyflyrau meddygol a all atal ymgeisydd rhag cael cadarnhad ei fod yn feddygol ffit i yrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat.

iii) O ran gyrwyr sydd wedi cyrraedd 65 oed, rhaid iddynt ddarparu Tystysgrif Feddygol bob blwyddyn. Mewn achosion o'r fath, bydd Tystysgrif yn ddilys am gyfnod o 12 mis yn unig.

iv) Rhaid i'r tystysgrifau meddygol sy'n ofynnol gan yr Awdurdod hwn gael eu paratoi gan -

   a) Ymarferydd Cyffredinol cymwysedig
   b) Ymgynghorydd

   a chanddo fynediad llawn at holl gofnodion meddygol yr ymgeisydd.

Rhaid i'r ymgeisydd dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chael tystysgrif feddygol berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn y canllaw canlynol:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/526635/assessing-fitness-to-drive-a-guide-for-medical-professionals.pdf

v) Rhaid i'r gyrrwr beidio â gyrru unrhyw gerbyd hacni na cherbyd hurio preifat pan fydd yn dioddef unrhyw salwch neu anabledd a allai effeithio ar ei allu i yrru neu pan fydd ymarferydd meddygol/ymgynghorydd cofrestredig wedi cadarnhau nad yw'n ffit i yrru.

vi) Rhaid i bob person sy'n gwneud cais i gael neu i adnewyddu trwydded roi manylion am unrhyw ddiffygion o ran ei olwg, ei glyw neu'i symudiad corfforol, a rhaid iddo roi gwybod ar unwaith i'r Awdurdod Trwyddedu os bydd unrhyw nam o'r fath yn digwydd yn ystod cyfnod y drwydded.

vii) Rhaid i'r gyrrwr roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu cyn pen saith [7] diwrnod ar ôl iddo ddod i wybod am unrhyw salwch neu anabledd a allai effeithio ar ei allu i yrru.

**7. DYLETSWYDDAU O RAN Y CERBYD**

i) Rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod y plât trwydded wedi'i osod yn ddiogel ac yn gywir ar y cerbyd cyn cychwyn ar ei sifft, bod modd ei weld yn glir a bod modd darllen y wybodaeth a ddangosir ar y plât. Rhaid rhoi gwybod i berchennog y cerbyd am unrhyw wallau neu ddiffygion er mwyn eu cywiro ar unwaith.

ii) Ni chaiff y gyrrwr ddefnyddio cerbyd hurio preifat i chwilio am gwsmeriaid mewn unrhyw fan cyhoeddus nac awgrymu, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, ei fod yn gweithredu fel gyrrwr cerbyd hacni.

iii) Rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod y cerbyd trwyddedig yn cael ei gynnal mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer y ffordd bob amser, bod trwydded treth cerbyd gyfredol yn ei lle a bod ardystiad ar y dystysgrif yswiriant moduro sy'n caniatáu i'r cerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion hurio cyhoeddus (os yw'n gerbyd hacni) neu hurio preifat (os yw'n gerbyd hurio preifat).

iv) Pa un a yw cymorth ymyl y ffordd yn cael ei ddarparu neu beidio, rhaid i gerbyd trwyddedig bob amser gario olwyn sbâr neu ewyn teiars a phwmp, fel y bo'n briodol, sy'n cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol cyfredol (gan dalu sylw arbennig i ddyfnder y gwadn) ac offer newid olwyn, gan gynnwys jac a charn tro olwynion.

v) Rhaid addasu amseroedd a llwybrau'r siwrneiau i gymryd tywydd gwael i ystyriaeth a rhaid rhybuddio'r huriwr ymlaen llaw os yw'n bosibl y bydd y siwrnai'n hirach oherwydd cyflwr y ffordd neu'r tywydd.

vi) Rhaid bod y cerbydau'n addas i'w defnyddio ym mhob tywydd.

vii) Rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod y taflenni diffygion dyddiol yn cael eu llenwi cyn dechrau ar ei siwrnai. Os bydd mwy nag un gyrrwr yn defnyddio'r cerbyd ar ddiwrnod penodol, rhaid i'r gyrwyr eraill gyflawni'r gwiriadau hyn hefyd i sicrhau eu bod nhw a'u teithwyr yn ddiogel.

viii) Rhaid cadw'r taflenni diffygion dyddiol ar ffeil am o leiaf chwe mis a rhaid iddynt fod ar gael i swyddog awdurdodedig eu gweld ar unrhyw adeg.

ix) Serch ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Traffig Ffordd, rhaid i'r gyrrwr roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn pen 72 awr am unrhyw ddamwain y mae Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat sydd o dan ei reolaeth yn rhan ohoni. Rhaid i ddeiliad y drwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith am unrhyw ddifrod sy'n effeithio ar ddiogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd neu ar ba mor esmwyth a/neu gyfleus yw'r cerbyd ar gyfer teithwyr sy'n talu am y daith.

## 8. DIOGELWCH PERSONOL A DIOGELWCH Y TEITHWYR

i) Rhaid i'r gyrrwr bob amser ofyn i bob teithiwr ddefnyddio'r gwregysau diogelwch a ddarparwyd yn y modd priodol. Yn achos teithwyr o dan bedair ar ddeg oed, y gyrrwr fydd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gwisgo gwregys ddiogelwch.

ii) Disgwylir i'r gyrwyr ysgwyddo dyletswydd gofal dros y teithwyr ac unrhyw eiddo y maent yn ei gludo yn eu cerbydau ar ran y teithwyr.

iii) Rhaid i'r gyrrwr beidio â chaniatáu i unrhyw blentyn o dan 12 oed neu o dan 135cm o daldra (4 troedfedd 5 modfedd) gael ei gludo ym mlaen y cerbyd. I osgoi amheuaeth, gellir cludo plentyn o dan 12 oed sydd wedi cyrraedd 135cm o daldra ym mlaen y cerbyd.

iv) Rhaid i'r gyrrwr beidio â chaniatáu i fwy nag un teithiwr gael ei gludo ym mlaen y cerbyd, oni bai fod trwydded y cerbyd yn datgan fel arall yn benodol.

v) Rhaid i'r gyrrwr beidio â chludo mwy na'r nifer o deithwyr a bennir ar y drwydded a roddwyd ar gyfer y cerbyd ac a ddangosir ar blât y cerbyd, na chaniatáu i hynny ddigwydd.

vi) Rhaid i'r gyrrwr beidio â chludo unrhyw anifail (y gellir ei gludo yn y cerbyd yn ôl disgresiwn y gyrrwr) oni bai ei fod o dan ofal yr huriwr a pha un bynnag rhaid sicrhau bod unrhyw anifail o'r fath yn cael ei ffrwyno mewn modd diogel.

vii) Gall esemptiadau meddygol o ran cludo anifeiliaid fod yn gymwys i yrwyr newydd neu i yrwyr cyfredol sy'n dioddef cyflyrau meddygol penodol ac, os felly, rhaid i'r gyrrwr/ymgeisydd ddarparu tystiolaeth fod ganddynt broblem benodol i fod yn gymwys ar gyfer esemptiad o'r fath drwy gyfrwng tystysgrif esemptiad meddygol.

viii) Rhaid i'r gyrrwr beidio â chludo unrhyw berson arall yn y cerbyd trwyddedig sydd wedi'i hurio heb ganiatâd yr huriwr.

ix) Y gyrrwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod diffoddydd tân cymeradwy pwrpasol yn cael ei gludo yn y cerbyd pa bryd bynnag y mae'n cael ei ddefnyddio am dâl. Rhaid nodi rhif mynegai'r cerbyd arno'n glir mewn inc parhaol.

x) Y gyrrwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod bocs cymorth cyntaf cymeradwy a chyflawn yn cael ei gludo yn y cerbyd pa bryd bynnag y mae'n cael ei ddefnyddio am dâl. Rhaid nodi rhif mynegai'r cerbyd arno'n glir mewn inc parhaol.

**9. DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

i) Disgwylir i'r gyrwyr gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 pan fyddant yn cludo teithwyr. Mae amodau ar wahân yn berthnasol i yrwyr cerbydau a addaswyd yn arbennig. Gweler "Amodau hygyrchedd ar gyfer cerbydau dynodedig" a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu ar y 23ain Mehefin 2015.

ii) Gall esemptiadau meddygol o ran cludo pobl anabl a/neu gludo cŵn cymorth fod yn gymwys i yrwyr newydd neu yrwyr cyfredol sy'n dioddef cyflyrau meddygol penodol ac, os felly, rhaid i'r gyrrwr ddarparu tystiolaeth fod ganddo broblem benodol i fod yn gymwys ar gyfer esemptiad o'r fath drwy gyfrwng archwiliad meddygol.

iii) Mae gwahaniaethu o unrhyw fath yn annerbyniol. Caiff unrhyw honiad o wahaniaethu ei drin yn eithriadol o ddifrifol a gellir rhoi gwybod i'r heddlu amdano. Yna, gall yr Awdurdod Trwyddedu adolygu'r drwydded i bennu a yw deiliad y drwydded yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i gael trwydded o'r fath.

**10. CYFRIFOLDEBAU DROS GADW'R MESURYDD TACSI'N DDIOGEL**

Rhaid i yrrwr cerbyd hacni sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r materion a ganlyn o ran y mesurydd tacsi:-

i) Pan fydd yn llonydd neu'n chwilio am gwsmeriaid, rhaid cadw'r ddyfais a osodwyd yn unol ag amodau'r drwydded yn y safle lle nad oes unrhyw dâl yn cael ei gofnodi ar wyneb y mesurydd.

ii) Cyn gynted ag y bydd y cerbyd yn cael ei hurio ar sail pellter, rhaid cychwyn y mesurydd ar ddechrau'r daith fel bod modd darllen y gair "Hired" neu "Fare" ar wyneb y mesurydd a rhaid sicrhau bod y mesurydd yn dal i gyfrifo'r tâl tan ddiwedd y daith.

iii) Rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod wyneb y mesurydd yn parhau i fod wedi'i oleuo'n gywir pan fydd y cerbyd yn cael ei hurio a hithau'n dywyll ac ar unrhyw adeg arall ar gais yr huriwr.

iv) Rhaid i'r gyrrwr sicrhau nad yw'r tâl a gofnodir ar y mesurydd yn cael ei ganslo, ei glirio na'i guddio hyd nes bod yr huriwr wedi cael cyfle i'w weld.

v) Rhaid i'r gyrrwr beidio â chodi tâl sy'n uwch na'r tâl a ddangosir ar wyneb y mesurydd. Fodd bynnag, gellir codi'r tâl y bu i'r huriwr a'r gweithredwr gytuno arno ymlaen llaw ar gyfer y daith honno, ar yr amod nad yw'n uwch na'r tâl a ddangosir ar wyneb y mesurydd. Ar ddechrau'r daith, rhaid cychwyn y mesurydd drwy symud yr allwedd, y faner neu ddyfais arall fel bod modd darllen y gair "Hired" ar wyneb y mesurydd a sicrhau bod y mesurydd yn dal i gyfrifo'r tâl tan ddiwedd y daith.

vi) Gellir codi ffi "tu allan i'r ardal" os cytunir ar hynny ymlaen llaw gyda'r huriwr. Rhaid i'r gyrrwr beidio â chychwyn y mesurydd hyd nes bod y teithiwr wedi mynd i mewn i'r cerbyd a rhaid iddo beidio â chodi mwy nag a ddangosir ar y mesurydd. Fodd bynnag, pan gytunir ar ffi "tu allan i'r ardal" rhaid cyfrifo'r milltiroedd cywir o safle'r busnes i'r gyrchfan lle y caiff y teithiwr ei godi pan fydd yr archeb yn cael ei gwneud ymlaen llaw a rhaid cadw cofnodion fel tystiolaeth am o leiaf chwe mis. Rhaid i'r cofnodion hynny fod ar gael i swyddog awdurdodedig eu gweld ar unrhyw adeg. Nid yw'r ffi y cytunwyd arni'n rhwymo a chaiff y teithiwr ofyn i'r gwahaniaeth gael ei ad-dalu drwy wneud cais i Lys Ynadon.

vii) Rhaid i'r gyrrwr roi manylion y cyfraddau cyfredol a bennwyd gan y cyngor i'r huriwr os bydd yn gofyn amdanynt.

viii) Rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod y raddfa gyfredol o daliadau a bennwyd gan y cyngor yn cael ei harddangos yn y cerbyd mewn man cyfleus ac amlwg.

ix) Rhaid darparu derbynneb ysgrifenedig sy'n nodi'r tâl a dalwyd i'r huriwr os bydd yn gofyn am dderbynneb.

## 11. EGWYDDORION YCHWANEGOL

**Trwyddedau a roddwyd gan Awdurdodau eraill**

Pan fydd trwydded neu gais am drwydded wedi cael ei gyfeirio at yr Is-bwyllgor Trwyddedu er mwyn iddo benderfynu arno, a bod yr ymgeisydd eisoes yn meddu ar drwydded o'r fath a roddwyd gan Awdurdod Lleol neu gyngor dosbarth arall, rhaid i'r canllawiau a geir yn y polisi hwn gael blaenoriaeth dros ganllawiau unrhyw Awdurdod Trwyddedu arall.

**Profion i yrwyr**

i) Disgwylir i'r ymgeisydd sefyll prawf ysgrifenedig a luniwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu a chael sgôr o 70% o leiaf i basio. Rhaid i'r ymgeisydd archebu'r prawf o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg [14] ymlaen llaw. Rhaid canslo unrhyw brawf o leiaf bedair awr ar hugain [24] ymlaen llaw. Sylwch - os na fydd ymgeisydd yn sefyll y prawf, ni fydd modd i'r Awdurdod Trwyddedu fwrw ymlaen â'r cais.

ii) Rhaid bodloni'r Awdurdod Trwyddedu bod yr ymgeisydd yn adnabod yr ardal lle y mae'n bwriadu gweithredu'n dda a bod modd iddo gyfathrebu ar lafar yn dda drwy gyfrwng y Saesneg ac, i'r perwyl hwnnw, rhaid i'r ymgeisydd basio'r prawf a luniwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.

iii) Codir ffi nad oes modd ei had-dalu, a hynny i dalu am amser y swyddogion a chostau gweinyddol y prawf. Rhaid pasio'r prawf cyn bod modd rhoi trwydded.

iv) Pan fydd yn sefyll y prawf, rhaid i'r ymgeisydd ddiffodd unrhyw ddyfeisiau electronig a/neu unrhyw ddyfeisiau GPS.

v) Gall yr ymgeisydd fod yn awyddus i sefyll y profion hyn tra bo ymchwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn mynd rhagddo. Pan fydd y prawf wedi'i basio a phan fydd datgeliad y DBS wedi dod i law, tybir bod y cais yn ddilys. Dylai'r cais gael ei gwblhau'n llawn cyn ei gyflwyno.

vi) Rhoddir hyd at dri chyfle i ymgeisydd basio'r prawf mewn unrhyw gyfnod o chwe mis. Os bydd yr ymgeisydd yn methu ar y trydydd cynnig, bydd angen cyflwyno cais newydd a thalu'r ffi eto.

**Gwybodaeth o'r sir.** Bydd pob ymgeisydd yn cael ei brofi ar sail yr adrannau isod. Byddant yn berthnasol i'r dref/ardal y mae'n gweithredu ynddi. Fodd bynnag, bydd disgwyl i'r ymgeiswyr wybod am brif lwybrau'r sir, ynghyd ag:

a) Enwau'r prif ffyrdd
b) Lleoliadau ardaloedd preswyl
c) Lleoliadau safleoedd carafanau, parciau gwyliau, gwestai a thai llety
d) Lleoliadau tafarndai, clybiau preifat a chlybiau cofrestredig
e) Lleoliadau eglwysi, ysbytai, swyddfeydd cyhoeddus, ysgolion, gorsafoedd trenau a gorsafoedd bysiau
f) Y llwybrau i gyrchfannau penodol

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

**Y Gyfraith a'r Amodau.** Bydd pob ymgeisydd yn cael ei brofi ynghylch gofynion sylfaenol deddfau trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, ynghyd â'r amodau a geir yn y polisi cyffredinol hwn.

### 7.6.6 Hyfforddiant i yrwyr

i) Cyn bod modd i yrrwr gludo defnyddwyr cadair olwyn, naill ai mewn cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni hygyrch, rhaid ei fod wedi pasio asesiad a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.